

# CADW'N LACH YN Y GWAITH

# ASTUDIAETH ACHOS

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

RHONDDA CYNON TAF

# "Mae'r gwasanaeth a'r staff yma yn anhygoel ac mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn newid bywydau pobl."

## Gwybodaeth am Wasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith

Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith yn cynnig dull rhagweithiol ac integredig sy'n cefnogi atal afiechyd corfforol a meddyliol, wrth gefnogi'r broses adsefydlu a rheoli cyflyrau tymor hir.

Rydyn ni'n darparu cymorth clinigol i staff busnesau bach a chanolig yn Rhondda Cynon Taf i helpu pobl i weithio'n well o ddydd i ddydd ac i reoli symptomau er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith neu barhau i weithio.

## Y Broblem

Roedd y cleient yn profi diffyg hyder yn ei swydd oherwydd gwrthdaro yn y gwaith, colli cydweithiwr a diffyg cefnogaeth yn ei amgylchedd gwaith. Dywedodd y cleient ei fod yn teimlo'n 'wan' fel person ac wedi colli pob ymddiriedaeth nid yn unig ynddo'i hun ond mewn eraill a chafodd hyn effaith fawr ar ei les a'i iechyd meddwl.

## Ein Datrysiad Ni

Cyfeiriwyd y cleient at y gwasanaeth cwnsela i dderbyn cefnogaeth gyda'i iechyd meddwl a'i broblemau yn ymwneud â gwaith. Dros gyfnod o naw apwyntiad 50 munud, cafodd y cleient gymorth gyda'r problemau yn ymwneud â gwaith, gwrthdaro, diffyg cefnogaeth, colli cydweithiwr a cholli hyder.

Hefyd, cafodd y cleient gysylltiad parhaus â'r uwch nyrs yn dilyn ymgynghoriad iechyd galwedigaethol, gyda'r cyfathrebu'n monitro ac yn rheoli pa mor addas oedd hi i'r cleient ddychwelyd i'r gwaith.

## Adborth

**Tystiolaeth y Cleient -** "Roeddwn yn teimlo'n ofnus, ar fy mhen fy hun, heb gefnogaeth a'r isaf rydw i erioed wedi teimlo, felly rydw i eisiau diolch o waelod calon i'r garfan Cadw'n Iach yn y Gwaith am fy helpu i a'm cefnogi drwy gyfnod anodd iawn yn fy mywyd.

Heb y garfan, dydw i ddim yn gwybod lle byddwn i heddiw.

Bydda i'n ddiolchgar am byth i Emma a Helen am fy nhywys i drwy'r daith yma a'm helpu i fyw bywyd hapusach.

Mae'r gwasanaeth a'r staff yma yn anhygoel ac mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn newid bywydau pobl.